


YSGOL BRO DYFRDWY



Polisi Atal **Bwlio**

Nid yw bwlio yn dderbyniol ar unrhyw adeg.
Os yw'n digwydd i chi dwedwch wrth rywun...

Rwan!

Os cewch eich dal yn bwlio:

1

Y tro cyntaf cewch rybudd.

2

Yr ail dro byddwch yn mynd i weld Mrs Owain.

3

Y trydydd tro bydd llythyr ac adroddiad yn mynd at eich rhieni. Bydd copi o'r adroddiad yn cael ei gadw yn eich ffeil yn yr ysgol.

Bydd yn rhaid i chi ymddiheuro'n llawn i'r sawl rydych wedi ei fwlio.

Byddwn yn gofyn i'ch rhieni ddod i'r ysgol i drafod y mater.

Mae Ysgol Bro Dyfrdwy yn lle hapus, braf...

1. pan for pawb yn garedig wrth ei gilydd.

2. pan fo pawb yn helpu ei gilydd.

3. pan fo pawb yn edrych ar ôl ei gilydd.

4. os ydym yn gwenu ar ein gilydd.

5. os ydym yn un teulu clos ac yn troi cefn ar unrhyw ffrae.

6. os ydym yn cerdded i ffwrdd o'r bwli.

7. os ydym yn gwahodd plant i chwarae â ni.

Beth yw bwli?

Niwsans

Rhywun sy'n taro

Rhywun sy'n pigo

Rhywun sy'n chwerthin neu herio

Rhywun sy'n gwneud bywyd yn boen

Rhywun sy'n dweud pethau cas

Mae bwlio yn beth hyll, ffiaidd a chas

Rhywun sy'n cicio

Rhywun sy'n anwybyddu plentyn arall

Rhywun sy'n tynnu gwallt

Rhywun sy'n galw enwau

Atal Bwlio

Dyma allwch chi wneud i atal bwlio:

Cerddwch i ffwrdd o'r bwli



Dywedwch wrth eich athro dosbarth ar unwaith



Os na fedrwch wneud hyn,
dywedwch wrth eich ffrind



Meddyliwch: 'Pam wnaeth o neu hi fy mwlio?
A wnes i unrhyw beth pryfoclyd?'



Dywedwch wrth eich rhieni

os yw'r person yn dal i'ch bwlio: ewch i ddweud wrth Mrs Owain

At y rhieni:

Beth allwch chi wneud i helpu atal bwlio?

1. Os ydych yn gwybod neu'n clywed am achos o fwlio yna cysylltwch â'r ysgol **ar unwaith.**

2. Anogwch y plant i beidio â bod yn ymosodol. Ceisiwch eu hyfforddi i droi'r foch arall. Tydi hyn ddim yn eu gwneud nhw'n 'soft'.

3. Cefnogwch yr ysgol os bydd unrhyw weithredu pellach.

4. Trafodwch broblemau eich plentyn gydag ef yn hytrach na'u cuddio.

Y TU ALLAN I ORIAU YSGOL

yddom nad cyfrifoldeb yr ysgol yw ymddygiad ein plant y tu allan i oriau'r
ol, ond feimlwn fod ymddygiad plant yn adlewyrchiad arnom ni.

dlwn yn frin unrhyw achos drwg o fwlio sydd yn digwydd yn y gymuned yn
frifol iawn.